

HWYLIO'R HAFREN A CHRWYDRIADAU ERAILL

Ar Drywydd y Twrch

S chadenfreude yw enw'r Almaenwr ar y gorfoledd a deimlir o weld helyntion pobl eraill ac o ddiolch nad chi sydd dani hi'r tro hwn. Rhywbeth tebyg a deimlais wrth ddarllen *More Corrections and Clarifications* (*Guardian Newspapers Ltd, 2002*) gan Ian Mayes, casgliad o wallau cysodi ac o rai ffeithiol a gramadegol, o dudalennau'r *Guardian*. Chwarae teg i'r papur hwnnw am ei onestrwydd. Er hynny, parodd un gwall imi gychwyn ar drywydd diddorol. Dyma fe: *'This was the moon, on the first spring tide, to summon up the Severn Boar (sic), the wave which charges inland'* (o'r *'Country Diary'*, Mawrth 14, 2002.) Ha ha! Y sillafiad cywir, fel y gwyddom oll wrth gwrs, yw *'Severn bore'*. Byddwn wedi tybio bod a wnelo'r enw hwn ar y don gref sy'n ysgubo ar hyd yr Hafren ar rai adegau, â'r ferf *'to bore'*, sef *'turio, tyrchu'*. Na, meddai'r *Oxford Dictionary of English Etymology*: prin y digwydd y gair cyn yr ail ganrif ar bymtheg, a phetrus yw'r tarddiad o'r Hen Norse *'bàra'*, *'ton, gwaneg'*. Yn yr enghreifftiau cynnar, *'boar'* yw'r sillafiad gan amlaf: e.e. yn 1613, *'a boar, as the seamen term it, and violent encounter of two tides coming in'*. Onid naturiol fyddai i forwr neu bysgotwr dychmygus weld tebygrwydd rhwng rhuthr y don hon, a rhuthr twrch? Trown at chwedl Culhwch ac Olwen, lle helir y Twrch Trwyth hyd at afon Hafren ac oddi yno i Gernyw, lle gyrrir ef i'r môr. Gofynnir i Arthur, a fu'n ymladd yn ofer yn ei erbyn, beth oedd hanes y Twrch: etyb mai *'brenin fu, ac am ei bechod y rhithiodd Duw ef yn hwch.'* Cyfeirir yma at hen chwedl a aeth i ebargofiant: ond tybed nad yw'n esbonio'r hen enw Cymraeg gynt ar y don, a grybwyllir gan Nennius yn y nawfed ganrif, yn ei restr o ryfeddodau Cymru: *'Aliud miraculum est Duo rig Habren, id est duo reges Sabrinae.'* Neu, yng Nghymraeg heddiw: *'Rhyfeddod arall yw dau ri Hafren, sef dau frenin Hafren'* - cyfeiriad mae'n debyg at ymddangosiad deublyg y don mewn pedair awr ar hugain. Gellir gweld deuri Hafren bum gwaith ar hugain mewn blwyddyn.

Eger egr iawn!

Afon dra pheryglus yw'r Hafren: hwyliais ar ei hyd fwy nag unwaith yn ddedwydd ddigon. Ond un tro bùm mor ffôl â mentro arni heb angor, a modfedda yn erbyn llif grymus o Gymru a ysgubai foncyffion, cychod a thai cychod heibio inni. Daethom ninnau o fewn trwch blewyn i gael ein hysgubo ymaith i 'n haped. Byth eto!

Enw hollol leol oedd y *'Severn bore'*: tybed na oroesodd rhyw frith gof o'r hen chwedl Frythonig ar lannau Hafren? Flynyddoedd maith yn ôl, a minnau'n un o bwyllgor a oedd yn adolygu termau daearyddol, ceisiais gan y pwyllgor fabwysiadu'r hen enw urddasol *'deuri Hafren'*. Ond na: gwell fu ganddo'r gair *'eger'*, ffurf ar yr enw Saesneg *'eagre'*, enw ar

don debyg a welir ar afon Trannon (Trent). (Ceir ysgrif dda iawn ar donnau o'r fath dan y gair *'eagres'*, yn *The Shell Country Alphabet* (1966), llyfr campus Geoffrey Grigson.) Erbyn ail-feddwl, efallai nad oedd *'boar'* y *Guardian* yn wall o gwbl. A gawsoch ddigon o'ch borio bellach?

Dante, dos i'w ddilyn

Soniais y tro o'r blaen am yr amryddawn Daniel Rees. Meddaf ar gopi o gyfieithiad D.Rees i'r Gymraeg o *Alcestis* Euripides (1887); a blynyddoedd maith iawn yn ôl, yn siop y Bont, siop Eric Jones yng Nghaernarfon, gynt, cofiaf ddatgladdu copi llychlyd o'i gyfieithiad o Ddwyfol Gân Dante (1903), a'i brynu am chweugain - pris mawr bryd hynny. Clamp o gyfrol ydyw, o bron 500 tudalen, gyda Rhagdraith maith ac ysgolheigaidd gan T. Gwynn Jones, nodiadau ar y cynnwys a llyfryddiaeth. Rhaid cyfaddef na lwyddais erioed i ddarllen mwy na sampl o'r trosiad, a'r hyn a'm diddorai fwyaf ynddo oedd y darluniau niferus o waith J.Kelt Edwards, yr arlunydd o Ffestiniog, a oedd bryd hynny (1902) yn Fflorens. Cydweithiodd T.Gwynn Jones a D.Rees ar ddrama Saesneg, *Dante and Beatrice*. (S.French, 1903). Bu fy nghopi i yn eiddo i D.Lleufer Thomas. A berfformiwyd hon erioed? Ceir awgrym o hynny efallai yn y cyflwyniad hynod i'r ddrama:

'To the most noble the Marquis of Anglesey and to all who prefer historical truth to hysterical trash' (twtsh o gynghanedd yma - B.G.) *'and purity to pruriency this play (founded on the works of Dante) is humbly dedicated'*. Ar yr olwg gyntaf, ni ddywed hyn fawr ddim wrthym, ond y Marcwis hwn oedd yr un a ddaeth yn ddrwg-enwog am wastraffu holl gyfoeth ei deulu ar ei fuchedd fohemaidd iawn, sef Henry Cyril Paget (1875-1905): cadi-ffanni oedd a hoffai wisgo fel merch a dawnsio mewn gwisgoedd a gemau drudfawr, a pherfformio yn ei theatr breifat yn y Plas Newydd. Tybed a obeithiai'r awduron y byddai'n llwyfannu hon? Ac os felly, tybed pa ran a chwaraeasai? Dante ynte' Beatrice?

Anfoes yr oes o'r blaen!

I mi, nid yw llyfr o hanes enwad mewn rhyw ardal neu'i gilydd yn addo oriau o ddarllen diddan. Eto dylid diolch bod ambell un wedi mynd ati i ddiogelu rhan o'n gorffennol, ac fe geir weithiau ambell gip difyrnach na'i gilydd ar foesau ein cyndadau. Llyfr o'r fath yw *Hanes Methodistiaeth Dyffryn Clwyd (&c)* Pierce Owen (1921), yr achubais gopi drylliog ohono. Yn y bennod sydd a wnelo â'r Clawddnewydd, cyflwynir inni Simon Jones a gychwynnodd Ysgol Sul yno, ac adroddir ei hanes yn brwydro yn erbyn y Fall:

'Trigai yn y gymdogaeth un o'r enw John Stevens. Math o 'Devil's Agent', yn y gymdogaeth oedd hwn, i drefnu cyfarfodydd llygredig a dichwaeth'. (Aha! - B.G.) 'Un tro



Y Marcwis yn ei holl ogoniant fel Pekoe yn Aladdin

(*Hawlfraint Archifdy Prifysgol Cymru Bangor*)

yr oedd wedi cyhoeddi un o gymanfaoedd ei feistr ar fryn o'r enw Cefn Cleion. Y tro hwn, yr oedd wedi dwyn yno ffircyn o gwrw, prun bynnag a oedd ganddo drwydded ai peidio'. (Oho! - B.G.)

'Fel yr oedd plant Simon Jones yn dyfod o'r Ysgol Sul, o Glocaenog, pan welsant dyrfa o bobl ar Gefn Cleion, a deall beth oedd darpariaeth John Stevens ar eu cyfer, ac mai amcan eu dyfodiad ynghyd oedd am y pellaf daflu carwden, rhedasant adref i hysbysu eu tad o'r peth ... Yr oedd y plant wedi cael allan, hefyd eu bod (h.y., y dyrfa - B.G.) feiddgared a dwyn carwden eu tad at yr amcan. Aeth Simon Jones atynt, yn ddioedi, gyda Phapur Newydd Saesneg yn ei law. Wedi cyrraedd yno dechreuodd ddarllen yn uchel a hyglyw, a phawb yn clustfeinio, ac ambell un yn dianc yn llechwraidd o gwr y dorf, yn enwedig y rhai oeddynt euog o ddwyn y carwdeni, am y tybient ei fod yn darllen rhyw Act Seneddol iddynt. Nid oedd ond ychydig ohonynt ar ôl pan soniodd Simon Jones am gwrth Bangor. Rhaid fod arnynt fwy o ofn Cwrt yr adeg honno. Nid oedd un ohonynt yn barod i fynd yno, fodd bynnag, ac ymaith â hwy bawb i'w noddfa. Dichon na feddyliodd neb am y cwrw, ac nid oedd Cefn Cleion ffoled â'i yfed, er mor sychedig ydoedd. Mawr ddylanwad yr hen dadau ar annuwiolion y cymdogaethau.'

Y bumed gamp ar hugain?

Ie'n wir: heddiw, mae'n berig', fe fyddai Simon Jones yn lwcus pe na châi ei gicio'n gelain gegoer gan labystiaid yr oes oleuedig hon. Ni wn i ddim ba beth fydd eich barn chi, ond i mi mae'r cyfan yn ennyn tosturi. Diniweited oedd y llanciau truan, yn mynd i gystadlu'n iach ddigon, a chael ambell beint i dorri syched. Rhaid nad oedd gan yr un ohonynt ddigon o Saesneg i ddeall ystryw y Br Jones. Rhan o drec ceffyl gwedd yw carwden, 'tres neu gadwyn haearn yn mynd dros gefn ystrodur march er mwyn cynnal llorpiâu neu freichiau trol' (Geiriadur Prifysgol Cymru). Peth anhyllaw iawn i'w daflu, mi dybiwn i. Ni welaf 'taflu carwden' ymhlith y pedair camp ar hugain, ac nis rhestrir, hyd y gwelaf, yng Ngeiriadur (*Parhâd ar dudalen 19*)